**Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (AAP)**
**Cyfarfod 4 –** 11 Mai 2017
Llywodraeth Cymru, Spa Road East, Llandrindod

## Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
John Davies – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Ivan Monckton – UNITE
Bryan Godsell – UNITE

Helen Snow – Geldards

Helena Bird – Llywodraeth Cymru
Lorri Browning – Llywodraeth Cymru
Medwyn Roberts – Llywodraeth Cymru

## Ymddiheuriadau

Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru

**Eitem 1 – Croeso**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi bod un ymddiheuriad wedi dod i law. Nid oedd unrhyw achosion newydd o wrthdaro buddiannau wedi codi ers y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 2 - Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Gofynnwyd i'r Panel gyflwyno sylwadau am gofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor. Nodwyd bod yr Is-bwyllgor wedi trafod dau bapur, sef papur ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur a phapur ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, a oedd ar agenda'r cyfarfod.

Dywedwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu rhwng bwrdd strategol Cyswllt Ffermio a'r colegau amaethyddol. Bydd y Cadeirydd yn cael gwybod yn y man am unrhyw ddatblygiadau yn sgil y cyfarfod hwnnw.

Roedd y Panel yn cytuno ei bod yn bwysig edrych ar yr hyn y mae'r colegau amaethyddol yn ei gynnig ar hyn o bryd a phenderfynu a yw'r arlwy yn llwyr ddiwallu anghenion y diwydiant. Byddai hefyd yn fuddiol cael ystadegau ar y niferoedd sy'n manteisio ar y cyrsiau a gynigir.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen eglurder am statws cyflogaeth pob ifanc a’ ffermydd sydd wrthi'n astudio ac yn hyfforddi neu sydd ar gynlluniau prentisiaeth.

Roedd y Panel yn bryderus am achosion lle'r oedd 'statws ffug o ran hunangyflogaeth' yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o osgoi'r cyfraddau a nodir yn y Gorchymyn. Byddai'r Panel, yn y lle cyntaf, yn ystyried cyhoeddi canllawiau er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Eitem 3 – Gwneud Gorchymyn 2017**

Trafododd y Panel hynt y gwaith ar Orchymyn 2017. Y teimlad oedd bod angen amserlen fwy pendant o ddigwyddiadau a chyfarfodydd er mwyn sicrhau bod y broses yn un fwy llyfn yn y dyfodol.

**Eitem 4 – Gwybodaeth am y Farchnad Lafur**

Cyflwynodd y Cadeirydd y papur ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur. Aed ati wedyn i drafod sut i sicrhau data cywir a sampl digon o faint at ddibenion ymchwil. Penderfynwyd y gallai cysylltu â chynifer â 1550 o fusnesau fod yn briodol.

**Eitem 5 – Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau fynegi barn am y papur a gyflwynwyd. Un o'r safbwyntiau a fynegwyd oedd, gan fod y DU yn gadael yr UE, bod Cymru ar drothwy newid enfawr ac y bydd yn rhaid wrth strategaeth er mwyn sicrhau bod ganddi weithlu a fydd wedi'i hyfforddi i lefel uchel, a diwydiant cynaliadwy, yn y dyfodol.

Awgrymwyd bod datblygiad proffesiynol parhaus a Chynllun Datblygu Personol yn ffordd dda o gofnodi'r hyn a gyflawnir ac y byddent o fudd i weithwyr. Dylid sefydlu trefn hyfforddi a datblygu briodol er mwyn symbylu gweithwyr a denu pobl newydd i'r diwydiant. Dadleuwyd bod angen cynnig cymhelliad i gyflogwyr gynnig datblygiad proffesiynol parhaus.

Cytunwyd y byddai'n fuddiol cysylltu ag 'Alumni'r Academi Amaeth' er mwyn paratoi papur allweddol ar yr opsiynau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
Cytunwyd y byddai hefyd yn fuddiol edrych ar sut y mae gwledydd eraill yn defnyddio datblygiad proffesiynol parhaus.

**Eitem 6 – Moderneiddio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol**

Mae symleiddio a moderneiddio yn parhau'n un o ddyheadau'r Panel ar gyfer yr hirdymor ac mae'r nod hwnnw'n cynnwys diweddaru'r hyn a gynhwysir mewn rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Awgrymwyd y byddai angen sefydlu Is-grŵp i ymgymryd â'r gwaith hwnnw a gwahoddwyd aelodau i wirfoddoli. Byddai cynigion yn cael eu datblygu a byddai'r Is-grŵp yn cyflwyno adroddiadau i'r Cadeirydd yn ôl y gofyn.

**Eitem 7** – Unrhyw Fater Arall

Trafododd y Panel yr angen i ddiffinio'r term 'prentisiaethau'.

Mynegodd y ddau undeb amaethyddol bryderon y byddai gweithwyr yn cael eu hyfforddi i lefel mor uchel fel y byddent yn cael eu diswyddo am na fyddai'r cyflogwr yn gallu eu fforddio bellach. Awgrymwyd y gallai hynny fod yn digwydd yn enwedig efallai ar y graddau is. Cytunwyd na ddylai cyflogwyr fod yn cyfyngu ar ddatblygiad ond y dylai gweithwyr hefyd weithio yn unol ag anghenion y busnes.

Trafododd y Panel ddyddiadau ac amserau posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Byddid yn cysylltu â phawb yn y man.